# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol ~ Weekly Newsletter

01.05.26




## Gair gan y Pennaeth – Headteacher's Greeting

Mae Ysgol Gwaelod y Garth yn anelu at Gwobr Arian Ysgol sy'n Parchu Hawliau eleni, ac mae'r plant wedi dysgu dipyn am hawliau plant eto yr wythnos hon. Mae pwyllgor llais y disgybl y Llysgenhadon Lles yn arwain ar y gwaith yma o dan arweiniad Mrs Jones, a hyfryd oedd eu gweld nhw yn cymryd yr awenau wrth ddysgu Cân Hawliau i weddill y plant. Gwaith arbennig, Llysgenhadon Lles! ♥

Mae disgyblion pwyllgor Dinasyddion y Dyfodol o dan arweiniad Mrs Davies hefyd wedi wrthi yn ddiwyd wrth baratoi wythnos o godi arian tuag at Elusen Ysbyty Plant Arch Noa. Mae her bellach wedi'i osod i bob dosbarth a phob plentyn wedi derbyn **ffurflen noddi** er mwyn casglu arian. Diolch i chi am bob cefnogaeth wrth gasglu nawdd gan deulu a ffrindiau. Mae Ysbyty Arch Noa yn bwysig i ni yn yr ysgol, gyda nifer o blant wedi derbyn gofal arbennig ganddynt.

Rydym yn ffarwelio yr wythnos hon gyda Miss Davies sydd wedi bod yn cefnogi Dosbarth 3C ers mis Medi. Mae Miss Davies wedi cael dylanwad cadarn a phwysig ar nifer o blant dros ei hamser gyda ni. Diolch o waelod calon i chi, Miss Davies, am eich gwaith arbennig a phob lwc ar y bennod nesa.

Cawsom wledd heddiw wrth fwynhau perfformiad arbennig gan Dosbarth 1C yn eu Gwasanaeth Dosbarth. Hyfryd iawn oedd gweld y plant hefyd yn mwynhau perfformio ac yn magu hyder wrth wneud. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd! ♥

●☆●☆●☆●☆●☆●☆●☆

Ysgol Gwaelod y Garth is aiming towards the Silver Rights-Respecting School Award this year, and the children have continued their learning about children's rights again this week. The Wellbeing Ambassadors pupil committee are leading on this work, led by Mrs Jones, and it was lovely to see the children taking the lead when teaching a song about our rights to all our other children. Great work, Welfare Ambassadors! ♥

Pupils from the Future Citizens committee, led Mrs Davies, have also been working hard to prepare a whole-school week of fundraising for the Noah's Ark Children's Hospital Charity. Challenges have been set for each class and each child has now received a sponsor form. Diolch to you all your support in collecting **sponsorship from** family and friends. Noah's Ark Hospital is important to us at school, with a number of children having received wonderful care from them.

This week we say goodbye to Miss Davies who has been supporting Dosbarth 3C since September. Miss Davies has had a strong and important influence on many children over her time with us. Diolch o galon, Miss Davies, for your wonderful work and good luck on your next chapter.

We had a special morning at school today, enjoying a great performance by Dosbarth 1C in their Class Assembly. To see the children enjoying performing whilst gaining confidence was particularly heartwarming. Llongyfarchiadau i chi gyd! ♥

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**Llun / Monday 04.05.26**
Gwyl Banc Calan Mai
*May Day Bank Holiday*

**05.05.26 – 15.05.26**
Gwersi Nofio Blwyddyn 4
*Year 4 Swimming Lessons*

**18.05.26 – 23.05.26**
Wythnos codi arian
*Fundraising week*
Ysbyty Arch Noa Hospital

**Iau / Thursday 21.05.26**
Gwasanaeth Dosbarth 1E
*1E Class Assembly*

**Gwener / Friday 22.05.26**
Diwrnod HMS
INSET Day

**Mercher / Weds 03.06.26**
Mabolgampau (D-B6)
*School Sports Day (Rec–Y6)*
@ Met Caerdydd
*@ Cardiff Met*

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*

## Bws Beics

Dyma ddyddiadau'r bws beics ar gyfer yr hanner tymor:

15 Mai

**Croeso i aelodau newydd bob amser!**

## Bike Bus

The bike bus dates for this half term are:

May 15

***New members always welcome!***








## Clybiau ar ôl ysgol

Bydd staff yn cynnig y clybiau canlynol ar ôl ysgol i ddisgyblion Blwyddyn 3-6. Diolch i'r staff i gyd am wirfoddoli.

Dydd Mercher –Celfyddydau Mynegiannol
Dydd Iau – Clwb Chwaraeon

**Clwb ola'r tymor – 02.07.26**

## After school clubs

Staff offer the following after school clubs to pupils in Years 3-6. Thank you to all the staff who volunteer.

Wednesday – Expressive Arts
Thursday – Sports Club

**Final club of the term – 02.07.26**

Diolch i bawb yn Dosbarth 1C am gyflwyno Gwasanaeth arbennig i ni am y tywydd a llongyfarchiadau a ar berfformiad gwych!

Diolch to all in Dosbarth 1C for a wonderful Class Assembly teaching us all about the weather. Congratulations to you all on great performances!



## Hawl y Mis - Mis Mai




## Right of the Month - Mai




### Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae Amddiffyn a Diogelu Plant yn fater pwysig iawn. Mae dyletswydd ar bawb yn y gymuned i ddiogelu pob plentyn. Mae polisi diogelu'r ysgol ar wefan yr ysgol: Polisi Diogelu ac Plant

Pe bai gennych bryder am ddiogelwch plentyn, dylech rhannu'r pryder gyda Swyddogion Diogelu'r ysgol ar unwaith. **Swyddogion Diogelu** yr ysgol yw Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen a Mrs Helen Davies. Gallwch ffonio'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod diogelu.

### Child Protection and Safeguarding

Child Protection and Safeguarding is an important matter. All members of the community have a duty to protect all children. The school's safeguarding policy can be found on the school's website: Safeguarding and Child Protection

If you have a concern about a child's safety, you should share the concern with the school's Safeguarding Officers immediately. The school's Safeguarding Officers are Mrs Helen Sharkey, Mrs Wendy Owen and Mrs Helen Davies. You can call the school at any time to discuss safeguarding.

Cymro / Cymraes yr Wythnos

Welsh learners of the week







Dysgwyr yr Wythnos

Learners of the week

Noah's Ark
Children's Hospital Charity
Elusen Ysbyty Plant

Yn ystod wythnos **<u>18fed o Fai tan 21ain o Fai</u>**, mi fydd dosbarthiadau ar draws yr ysgol yn cymryd rhan mewn heriau gwahanol i godi arian ar gyfer elusen Arch Noa gan fod nifer o blant wedi elwa o'r gofal a chefnogaeth gan yr ysbyty arbennig yma.

Mae **taflen noddi** eisoes wedi cael ei ddanfon adre gyda'ch plentyn a gwerthfawrogwn bob ymdrech i fynd ati i gasglu gymaint o arian a phosib.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddychwelyd y ffurflen a'r arian yn ystod yr wythnos cyn ein heriau. **Amdani!**

*During the week of **<u>18th to the 21st of May</u>**, all classes will be taking part in various challenges to raise money for Noah's Ark charity as several children from our school have benefitted from their care and support.*

*A **sponsorship form has** already been sent home with your child, and we would appreciate every effort made to collect as much money as possible.*

*We kindly ask that you return the form and the money in the week leading up to our challenges! **Let's go for it!***

Cofion cynnes / *Kind regards,*

**Mrs Davies a Dinasyddion y Dyfodol / Citizens of the Future**

# Ysgol Gwaelod Y Garth

## RYDYM YN CYFLOGI

*Ymunwch â'n tîm!*

- Swydd Rheolwr Ystadau ar gael o Fedi 2026
- Ysgol gyfeillgar, wedi'i chanolbwyntio ar y gymuned yng Ngwaelod Y Garth, gogledd Caerdydd
- Ysgol Gymraeg a Saesneg gyda 237 o ddisgyblion
- Mae'r rôl yn cynnwys cynnal adeiladau a thir i safon uchel
- Yn gofyn am rywun dibynadwy, hyblyg, ac â ffocws cymunedol
- Parhaol, 25 awr yr wythnos, 52 wythnos y flwyddyn
- Am ragor o fanylion neu ymweliad ysgol trwy'r Pennaeth, Mrs Sharkey

**HYSBYSEB SWYDD**

*Ymgeisiwch yma:*

**Ffôn:** 029 2081 0489

# Ysgol Gwaelod Y Garth

## WE ARE HIRING!

*Join our team!*

- Estates Manager post available from September 2026
- Friendly, community-focused school in Gwaelod y Garth, north Cardiff
- Welsh- and English-medium school with 237 pupils
- Role involves maintaining buildings and grounds to a high standard
- Requires someone reliable, flexible, and community-minded
- Permanent, 25 hours per week, 52 weeks per year
- Further details or school visit via Head Teacher, Mrs Sharkey

**JOB APPLICATION**

*Apply here:*

**Phone:** 029 2081 0489

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth ac i ymgeisio:

Click here for more infroamtino and to apply:

Cliciwch yma -- Click here


www.mentercaerdydd.cymru
Gofal Plant
Holiday Care
8:30am - 5:30pm
£35.00
DYDD LLAWN/
FULL DAY
26/05/26-29/05/26
Dydd Mawrth - Dydd Gwener
Tuesday- Friday
Ysgol Treganna
CF11 8DG
Ysgol Melin Gruffydd
CF14 1AP
Ysgol Y Berllan Deg
CF23 9LD
www.mentercaerdydd.cymru
Taliadau: Cerdyn / Talebau Gofal
Payment: Card / Child Care Vouchers
ARCHEBION AR-LEIN YN UNIG - ONLINE BOOKINGS ONLY
Cynllun Gofal i Blant Dosbarth Derbyn - Blwyddyn 6
dros y Gwyliau Ysgol
Welsh medium Childcare scheme for children
in reception - year 6
during the school holidays
menter caerdydd
CARDIFF
CAERDYDD
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Rhif Elusen / Charity Number: 1098606
Rhif Cwmni / Company Number: 4576565